

Cofnodion Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru gynhaliwyd ar 14eg Tachwedd 2017

Cynhaliwyd y cyfarfod yng Ngholeg Bedyddwyr De Cymru, 58 Ffordd Richmond, Caerdydd, CF24 3UR o 11am i 3pm.

Presennol

Rheinallt Thomas (Llywydd) Ian Morris, Meirion Morris, Paul Rochester, Gethin Rhys Martin Spain (Trysorydd), Gareth Morgan Jones, J P Ramos, Irfon Roberts, Alun Tudur Eirian Wyn, Vaughan Salisbury, Steffan William (Cyfieithydd), Sasha Perriam (Cofnodydd)

Ymddiheuriadau

Chris Gillham, Aled Jones, Helen Jones, Judith Morris, Peter D Richards, Sally Thomas Geraint Tudur

Cyflwynwyd gweddiau agoriadol gan Ian Morris

Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Rheinallt yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau. Diolchodd i Sasha Perriam am gytuno i gofnodi'r cyfarfod hwn ac am ei effeithlonrwydd. Diolchwyd i Steffan am gyfieithu. Nodwyd bod Helen Jones wedi profi profedigaeth yn ddiweddar. Diolchwyd i Rhys a Helen Jones am eu heffeithlonrwydd o ran sicrhau bod papurau y cyfarfod wedi cael eu dosbarthu. Nodwyd nad yw Peter Dewi Richards mewn sefyllfa i ddirprwyo ar ran y Llywydd oherwydd salwch teuluol.

Cytunodd Rheinallt i anfon nodyn at Peter Dewi Richards.

Bydd angen penodi cynrychiolydd yn lle Peter Dewi Richards yn ôl yr angen gan y Llywydd

Cofnodion Mai 16eg 2017

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion.

Matterion yn Codi

Hyfforddiant **(5)**. Roedd Rheinallt wedi derbyn gohebiaeth gan Aled Jones, ond mae angen rhywfaint o eglurder. Y Drindod Dewi Sant wedi cyflogi staff newydd a bydd yn darparu graddau diwinyddiaeth llawn amser. Roedd wedi cael ei nodi bod rhai myfyrwyr Cymraeg yn astudio graddau diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Birmingham. Penderfynwyd bod angen eglurder pellach am ddarpariaeth hyfforddiant diwinyddiaeth yng Nghymru. Mae gan St Padarn rhywfaint o adnoddau ar gyfer hyfforddiant er nad yw ar gael yn y Gymraeg.

Cytunodd Gethin i gysylltu ag Aled Jones i sicrhau eglurder cyn y cyfarfod ym Mai.

Bydd Rheinallt yn ysgrifennu at Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac at Brifysgol Bangor i holi am eu darpariaethau ar gyfer hyfforddiant diwinyddol o 2018 ymlaen. Mae'n bwysig holi am pa staff sydd ar gael ar gyfer y cyrsiau diwinyddol.

Bydd Rheinallt yn cysylltu gyda'r Dr Hefin Jones i holi am y ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant diwinyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

(6a) Enwadau

Mae'r Parch Derwyn M Jones yn dal yn sâl.

Cytunodd y Cofnodydd i ysgrifennu ato ar ran Y Cyngor.

Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Hysbysodd Rheinallt yr aelodau fod Meirion Morris wedi cytuno i barhau fel Ysgrifennydd Cyffredinol o'r Enwad. Mae Ifan Roberts wedi ei benodi i oruchwylio'r swyddfa yn yr Eglwys Newydd

Adroddiad Y Llywydd

Dosbarthwyd adroddiad cynhwysfawr i'r aelodau oedd yn tynnu sylw at weithgaredd y Llywydd rhwng Mai 16eg 2017 a 31 Hydref 2017. Mae'r Llywydd wedi ceisio cynyddu proffil Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ac mae'r Digwyddiadur hefyd wedi'i gynnwys yn y Treasury a'r 4 Tudalen a'r Gwyllydydd. Diolchodd Rheinallt i Cytûn am y cydweithio a fu'n hynod lwyddiannus. Rhoddodd Rheinallt wybod i'r aelodau fod Ynyr bellach wedi gadael Cytûn ond diolchodd iddo am ei waith wrth sefydlu tudalen gwe Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ac am ychwanegu peth gwybodaeth ar y dudalen. Y gobaith yw y gellir gwella gwefan Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ymhellach yn y dyfodol. Dywedodd Gethin y byddai rôl Ynyr yn cael ei hysbysebu a bod disgrifiad swydd yn cael ei drafod.

Diolchodd Rheinallt i Ynyr am ei holl waith. Diolchodd Alun i Rheinallt am ei holl waith ar ran Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru.

Adroddiad adran Y Gogledd

Mynychodd llawer o gynrychiolwyr eglwysi lleol wasanaeth i gyflwyno Medalau Gee. Penderfynwyd trosglwyddo y cyfrifoldeb am Fedalau Gee yng nghylch y Gogledd i Cyngor Ysgolion Sul Cymru. Adroddodd Irfon ar ran ardal De Cymru a dywedodd y bydd Cyngor Ysgolion Sul yn cymryd cyfrifoldeb am ddsbarthiad y medalau ar gyfer yr ardal hon hefyd.

Cytunodd aelodau'r Cyngor Eglwysi Rhyddion i gyflwyno Medal Gee i Vivian Williams i ddiolch iddo am ei holl waith yn gysylltiedig â'r Cyngor.

Bydd Irfon Roberts yn gorffen fel aelod o'r Cyngor ond bydd Eirian Wyn yn parhau i fynychu cyfarfodydd.

Cyfansoddiad

Martin sydd wedi bod yn gyfrifol am ddiweddarau y Cyfansoddiad yn y gorffennol. Cytunodd Rheinallt bod angen diwygio'r cyfansoddiad yng ngoleuni'r ffaith bod Adrannau'r Gogledd a'r De yn peidio â bodoli.

Bydd angen i Rheinallt, Helen and Martin gyfarfod i ddiweddarau'r Cyfansoddiad

Mannau gwag ar CYSAGau

Trafodwyd manau gwag ar CYSAGau. Mae gan Ceredigion a Sir Benfro leoedd gwag yr Eglwys Rhyddion ar eu CYSAGau. Mater i bob Awdurdod Lleol yw penderfynu sut i wneud hyn, ac mae'n ofynnol iddynt ystyried cryfder cymharol pob enwad neu ffydd yn eu hardal. Mae rhai yn gwahodd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru i enwebu rhywun. Os na allwn enwebu unrhyw un, mae'n debygol y bydd y sedd yn cael ei cholli i enwadau neu gredoau eraill. Roedd Gethin wedi dosbarthu Bwletin Polisi Tachwedd i'r aelodau. Diolchwyd i Gethin am y gwaith hwn.

Cafwyd rhywfaint o drafodaeth adlewyrchiol ynghylch y digwyddiadau diweddar yn y Senedd. Cafwyd trafodaeth ynghylch gofal bugeiliol yn y maes cyhoeddus ac o fewn yr enwadau.

Awgrymwyd y gallai fod y fuddiol i sefydlu fforwm o dan adain y Cyngor Eglwysi Rhyddion i ystyried gofal bugeiliol.

Cytunodd Rheinallt i ysgrifennu at Lywydd Y Senedd.

Bydd yr Ysgrifennydd yn gwahodd aelod o Cynnal i gyfarfod o CERhC yn y dyfodol i roi cefndir o waith Cynnal

Esboniodd Gethin y byddai Aled yn arwain gyda'r trefniadau ar gyfer Eisteddfod 2018 yng Nghaerdydd. Bydd fformat Eisteddfod 2018 yn wahanol iawn i flynyddoedd blaenorol. Defnyddir unedau llai a defnyddir llefydd fel WCVA a'r Eglwys Fethodistaidd yn Sgwâr Loudon

Adroddiadau Enwadol

Byddin yr Iachawdwriaeth

Mae Byddin yr Iachawdwriaeth wedi bod dan broses o ailstrwythuro ers 2015, gyda cholli 6 aelod o staff. Mae Byddin yr Iachawdwriaeth yn rheoli llwyth gwaith trwm gyda llai o staff. Maent wedi cael rhai problemau gyda'r system ariannol.

Roedd rheoli'r broses ailstrwythuro wedi golygu na ellid mynychu pob cyfarfod.

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Diolchodd Meirion i'r aelodau am eu negeseuon o gefnogaeth. Penodwyd Meirion i barhau yn rôl yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac roedd Ifan Roberts wedi cael ei benodi i reoli'r swyddfa a'i staff. Mae trafodaethau gyda'r Comisiwn Elusennau ynglŷn â chofrestru eglwysi a chapeli. Eu gwaith canolog oedd eu cynllun Hyfforddi Cenhadaeth. Mae person ifanc o Patagonia yn gweithio gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Ffederasiwn Annibynnol

Cyhoeddodd Martin y bydd Chris Gillham yn ymddeol ym mis Hydref 2018. Hysbysodd Martin yr aelodau ei fod wedi cael ei benodi'n Llywydd newydd Ffederasiwn Annibynwyr y Deyrnas Unedig

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Hysbyswyd yr Aelodau y bydd 100 o bobl o Madagascar yn dod i Gymru yn 2018 i ddathlu 200 mlynedd o'r cenhadwyr Cymreig cyntaf yn cyrraedd yno. Bydd UAC yn apelio ar eglwysi i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer gwaith presennol yr eglwys yn Madagascar, FJKM. Maent yn ceisio sicrhau bod eu cynulleidfau eglwysig yn edrych ar y Beibl ac maen nhw'n edrych ar gynhyrchu DVD fel adnodd i greu trafodaeth.

Undeb Bedyddwyr Cymru

Mae'r Dr Christian Williams yn gweithio gydag Undeb Bedyddwyr Cymru yn lle Helen Wyn, sy'n sâl. Anfonwyd holiadur at aelodau Undeb Bedyddwyr Cymru ynglŷn â Seren Cymru, eu cyhoeddiad wythnosol, gan ofyn am farn. Mae taith i Nepal ar y cyd â BMS yn cael ei threfnu. Maent yn chwilio am bobl ifanc i gymryd rhan yn eu blwyddyn bwlch 2018 mewn gweinidogaeth.

Yr Eglwys Fethodistaidd

Mae'r Eglwys Fethodistaidd wrthi'n trefnu cwrs hyfforddi ar gyfer eu harweinwyr lleig a fydd hefyd yn cael ei ddarparu yn Gymraeg. Mae Caplaniaeth gyda Heddluoedd, Sioe Frenhinol Cymru ac ym maes chwaraeon yn feysydd blaenoriaeth i'r Eglwys Fethodistaidd.

Materion Addysg

Roedd Vaughan wedi dosbarthu papur. Cyfeiriwyd at Adolygiadau i'r cwricwlwm. Nodwyd y bydd Cytûn yn parhau i gymryd rhan lawn yn natblygiad y cwricwlwm. Ymdriniodd Vaughan ag addoli ar y cyd o fewn ysgolion yn dilyn cyflwyno deisebau ar y mater i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae Cytûn yn parhau i ddilyn y dadleuon, ac nid ydynt yn disgwyl unrhyw newidiadau mawr. Cyfeiriodd Vaughan at yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer Dydd Sul Addysg. Cyfeiriwyd at

gyhoeddiadau diweddar Estyn sy'n canolbwyntio ar lawer o feysydd gwaith. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyfieithu'r cyhoeddiad 'Christian Reformation' fel ei fod ar gael yn ddwyieithog ar gyfer ysgolion Cymreig (Cyfnodau Allweddol 2-4). Cytunodd Paul Rochester i ymchwilio i ffynonellau ariannol yn y Grŵp Eglwysi Rhyddion ar gyfer Cymru a Lloegr ar gyfer y gwaith hwn. Nid oedd unrhyw gyfeiriadau at Gymru wedi eu cynnwys yn "The Free Church Voice in Higher Education".

Nodwyd bod lle i gynrychiolydd o Gymru ar Grŵp Llais yr Eglwysi Rhyddion mewn Addysg Uwch.

Cyfeiriodd Rheinallt at y cyhoeddiad dwyieithog 'Hyrwyddo Crefydd: Hanes Mudiad Addysg Gristnogol/Crefyddol Cymru' 'Encouraging Religion, A History of the Christian Education Movement Wales 1965-2015' gan Aled D Jones. Roedd copiau ar gael yn y cyfarfod.

Cyfrifon

Dosbarthodd Martin gopiâu o'r Cyfrifon i'r aelodau. Nid yw Byddin yr Iachawdwriaeth wedi talu eto. Nodwyd y gallai Eglwysi Lutheraidd yr Almaen ddymuno dod yn rhan o Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. Roedd Martin mewn cyswllt.

Cytunwyd cyflwyno £500.00 i Cytûn at eu gwaith.

Adroddiad gan y Parchg Paul Rochester

Diolchodd Paul Rochester i'r aelodau am ei wahodd. Prif flaenoriaethau ei waith yw codi proffil y Grŵp Eglwysi Rhyddion yng Nghymru a Lloegr. Bydd gwaith yn cael ei gwblhau o gwmpas y sgwâr cyhoeddus a'r eglwys ehangach yn 2018. Mae gwaith yn digwydd ar sut mae'r eglwys yn cyfrannu at wella cydlyniant cymdeithasol yng nghymunedau Lloegr. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Fforwm Cymunedau Ffydd Iunio adroddiad ar yr un maes i Gymru

Cytunodd Paul i rannu'r adroddiad wedi ei ail ddrafftio gyda Gethin a Chyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

Trafodwyd Caplaniaeth, Addysg ac Iechyd.

Mae Marwolaeth yn cyfri

Gwahoddodd Paul Rochester aelodau CERhC i fynychu'r gynhadledd ar "Dying Matters". Esboniodd Gethin bod gwaith yng Nghymru ar y mater yma yn digwydd drwy Sally Thomas gyda nifer o ddiwyddiadau "Byw Nawr".

Diolchodd Rheinallt i Steffan am ei waith. Diolchwyd hefyd i Sasha am gyd lynnu a threfnu cinio ac am ei gofal dros aelodau Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru.

Cyhoeddwyd y Fendith gan Rheinallt.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Iau Mai 24ain 2018 o 11 y bore yng Ngholeg Bedyddwyr De Cymru.